Andrew Farrow
Chief Officer (Planning,Environment & Economy)
Prif Swyddog (Cynllunio, Amgylchedd ac Economi)

Arolygwyr Cynllunio
Archwiliad Cyhoeddus CDLl Sir y Fflint

Dros e-bost trwy Swyddog y Rhaglen

Your Ref/Eich Cyf
Our Ref/Ein Cyf AR/LDP/EiP
Date/Dyddiad 6 Hydref 2021
Ask for/Gofynner am Andy Roberts
Direct Dial/Rhif Union 01352 703211
Fax/Ffacs
E-mail/e-bost Andy.roberts@flintshire.gov.uk

Annwyl Arolygwyr

Ffosffadau - Dull ar y cyd rhwng Cyngor Sir y Fflint a Wrecsam i fynd i'r afael â gofynion Cyfoeth Naturiol Cymru i ddangos nad oes unrhyw effeithiau niweidiol ynghlwm â'u Cynlluniau Datblygu Lleol perthnasol o ran targedau ffosffadau newydd ac effeithiau arbennig ar afonydd dynodedig Ardal Gadwraeth Arbennig Afon Dyfrdwy a Llyn Tegid.

Fel y nodwyd yn fy e-bost a anfonais atoch ddydd Gwener, 1 Hydref 2021, mae'r llythyr hwn yn rhannu'r wybodaeth ddiweddaraf â chi ynglŷn â'r mater uchod a sut mae'n ymwneud â pharatoadau Newidiadau Materion sy'n Codi.

Fel y gwyddoch, cyflwynodd Cyfoeth Naturiol Cymru dargedau newydd ym mis Ionawr 2021 ynghyd â chanllawiau dilynol i Awdurdodau Cynllunio Lleol, yn gofyn iddynt sicrhau, drwy'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd o'u cynlluniau perthnasol, nad yw'r datblygiadau yn y cynlluniau yn cael effaith niweidiol ar y derbynnydd cadwraeth uchod.

Gan fod Wrecsam a Sir y Fflint wedi gwneud cynnydd tebyg o ran eu Harchwiliad Cyhoeddus ac yn nesáu at y cam o hysbysebu Newidiadau Materion sy'n Codi, roedd y ddau Gyngor yn teimlo y byddai'n ddefnyddiol darparu datganiad ar y cyd o'u sefyllfa i chi yn amlinellu dull a bwriad y ddau Gyngor ar gyfer ymdrin â ffosffadau a Newidiadau'r Materion sy'n Codi. Gan fod y ddau Gyngor wedi bod yn cydweithio ar hyn, mae'r dull cyffredinol yr fath ar gyfer y ddau Awdurdod Cynllunio Lleol mewn gwirionedd.

Y Dull

Bydd y broses a gaiff ei datblygu gan y ddau Gyngor ar y cyd â Chyfoeth Naturiol Cymru, Dŵr Cymru a budd-ddeiliaid eraill yn darparu'r canlynol i'w hystyried gennych:

We welcome correspondence in Welsh. We will respond to correspondence received in Welsh without delay.
Rydym yn croesawu gohebiaeth Gymraeg. Ymatebwn yn ddi-oed i ohebiaeth a dderbynnir drwy gyfrwng y Gymraeg.

1. Asesiad cymesur o gyllideb maeth gyffredinol y datblygiadau ym mhob cynllun (h.y. faint o ffosffad y mae'r datblygiad arfaethedig ym mhob cynllun yn debygol o'i gynhyrchu).
2. Datblygu Strategaeth Lleihau Ffosffadau Dalgylch Dyfrdwy i ddangos sut mae'r Cynlluniau Datblygu Lleol yn bwriadu rheoli'r ffosffadau sydd ynghlwm â datblygiadau a sicrhau cydymffurfiaeth â Rheoliadau Cynefinoedd. Bydd y Strategaeth yn cynnwys yr asesiad uchod ac ystod o fesurau posibl y gellir eu defnyddio i gyfyngu a lleihau ffosffadau'n uniongyrchol o'r datblygiad yn y cynlluniau, yn ogystal â mesurau ehangach y gellir eu defnyddio yn y dalgylch afonydd ehangach i leihau'r lefel bresennol o ffosffadau yn yr afonydd. Bydd hyn, er enghraifft, yn golygu creu Bwrdd Rheoli Maethynnau a fydd yn cynnwys budd-ddeiliaid allweddol sy'n gyfrifol am reoli agweddau amrywiol o amgylchedd y dŵr a chyfrannu at ddefnyddiau tir yn y dalgylch ehangach, mae llawer o'r rhain y tu hwnt i reolaeth y Cynlluniau neu'r Awdurdodau Cynllunio Lleol.
3. Diwygio polisïau perthnasol y CDLl i'w archwilio gan y cyhoedd sy'n ymdrin â diogelu amgylchedd y dŵr i ddarparu cynllun wrth gefn i sicrhau nad yw'r datblygiadau newydd yn cael effaith niweidiol ar yr amgylchedd o ran lefelau ffosffadau. Bydd adran yn y Strategaeth i gyd-fynd â hyn yn dangos, mewn egwyddor, sut fydd y gwaith lliniaru yn cael ei ddarparu a sut fydd cyfraniadau datblygwyr yn cael eu cyfrifo a'u sicrhau. Cyn neu ar ôl mabwysiadu, bydd canllawiau cynllunio atodol ar gyfer cyfraniadau datblygwyr sy'n ffurfio rhan o'r mesurau a fydd wedi'u hamlinellu yn rhif 2, uchod, yn cael ei gyhoeddi, gan ddarparu mecanwaith cynllunio a fydd yn cynorthwyo â lleihau effeithiau niweidiol.
4. Atodiad i Asesiadau Rheoliadau Cynefinoedd y cynllun perthnasol a fydd yn sgrinio pob un o'r NMCau o ran maint yr effaith, a bydd hefyd yn dangos, at ddibenion ansawdd dŵr, sut mae'r cynllun yn sicrhau nad oes unrhyw effeithiau niweidiol o'r dull cyfunol a amlinellir uchod.
5. Dau Ddatganiad Tir Cyffredin tebyg gyda Chyfoeth Naturiol Cymru a fydd, yn gryno, yn dangos bod y dull uchod yn bodloni canllawiau Cyfoeth Naturiol Cymru i Awdurdodau Cynllunio Lleol a gyhoeddwyd ar ffurf llythyr i bob Awdurdod Cynllunio Lleol ym mis Ebrill.

Amserlen

Mae'r Cynghorau a Chyfoeth Naturiol Cymru yn gobeithio cwblhau'r gwaith hwn **erbyn diwedd mis Hydref** pan fydd atodiadau'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd, polisïau Newidiadau Materion sy'n Codi Diwygiedig, Strategaeth Rheoli Maethynnau a Datganiad Tir Cyffredin perthnasol yn cael eu cyflwyno i'w hystyried gennych, a gobeithio y byddwch hefyd yn cytuno i ddefnyddio'r rhain i gefnogi cyhoeddi NMCau ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus.

Archwiliad Cyhoeddus

Mae'r ddau Gyngor yn awyddus i ddechrau eu hymgynghoriadau NMCau perthnasol cyn diwedd y flwyddyn galendr (mae Wrecsam yn awyddus i ddechrau ym mis Tachwedd) ac er eich bod wedi nodi eisoes y byddwch o bosibl angen Gwrandawiad pellach ar y NMCau, yn enwedig mewn perthynas â Sir y Fflint, mae'r Cynghorau'n credu y bydd y wybodaeth uchod yn darparu digon o wybodaeth am ffosffadau i gefnogi ymgynghoriad ar y NMCau. Yn ystod yr ymgynghoriad, bydd modd i unrhyw un sydd â diddordeb yn y mater arbennig hwn a'r dystiolaeth ategol gyflwyno sylwadau. Mae'r Cynghorau'n gobeithio y byddwch yn cytuno bod hyn yn gwaredu'r angen am Wrandawiadau pellach i ganiatáu i fudd-ddeiliad gyflwyno sylwadau ar NMCau arfaethedig cyn yr ymgynghoriad cyhoeddus ehangach.

Mae'r Cynghorau'n gobeithio bod yr uchod yn cynnig eglurhad i chi o'r dull arfaethedig ac yn awyddus i glywed eich barn a'ch cyngor am y camau nesaf.

Yn ddiffuant

Andy Roberts
Uwch Reolwr Strategaeth